# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 01 Mehefin 2020

## SL(5)547 – Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015) ("y Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned").

Yn ogystal â nodi gofynion ar gyfer Cyfansoddiad a Gweithdrefnau Cynghorau Iechyd Cymuned, gosododd y Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned yr uchafswm cyfnod yn y swydd ar gyfer:

- aelodau o Gynghorau Iechyd Cymuned a benodir gan Weinidogion Cymru, sefydliadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol;
- aelodau cyfetholedig (heb hawliau pleidleisio) o Gynghorau Iechyd Cymuned a benodir gan y Cynghorau Iechyd Cymuned eu hunain;
- yr uchafswm cyfnod y caiff aelod o Gyngor Iechyd Cymuned wasanaethu fel cadeirydd neu is-gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned neu fel cadeirydd neu is-gadeirydd pwyllgor lleol Cyngor Iechyd Cymuned.

Mae'r rheoliadau yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r penderfyniad i atal y broses penodiadau cyhoeddus yng Nghymru dros dro oherwydd y pandemig COVID-19. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch hyd y pandemig COVID-19 a'r ffaith y bydd Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael eu diddymu a Chorff Llais y Dinesydd yn cael ei sefydlu, ar ôl i'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) gael Cydsyniad Brenhinol, mae'r offeryn statudol yn gwneud diwygiadau i sicrhau bod y trefniadau aelodaeth yn addas i'r diben yn ystod y cyfnod pontio.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

**Fe'u gwnaed ar:** 06 Mai 2020

**Fe'u gosodwyd ar:** 07 Mai 2020

**Yn dod i rym ar:** 30 Mai 2020